**Leighton Andrews AC / AM**
**Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus**
**Minister for Public Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf : MA-P-LA-0087-15

Jocelyn Davies AC
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cyllid
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

30 Hydref 2015

Annwyl Jocelyn,

Ar 19 Tachwedd, bydd Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn cyd-gynnal digwyddiad gyda'r teitl 'Yr heriau a'r cyfleoedd wrth gyflenwi gwasanaethau lleol yng Nghymru: seminar ar y cyd ar Gyllid Llywodraeth Leol Cymru'. Bydd y seminar yn canolbwyntio ar sut y gall Llywodraeth Leol yng Nghymru ymateb i bwysau ariannol trwy ailfeddwl am sut y caiff gwasanaethau eu cyflenwi a thrwy ddysgu wrth eraill.

Bydd y rhaglen yn ystod y bore yn canolbwyntio ar yr heriau sydd i ddod i Lywodraeth Leol, a hefyd ar y sefyllfa economaidd ac ariannol a ragwelir ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus. Mae rhaglen y prynhawn wedi ei chynllunio i annog trafodaethau cadarnhaol am wahanol ddulliau o gyflenwi gwasanaethau, a beth sydd wedi gweithio mewn mannau eraill. Bydd y siaradwyr yn cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau proffesiynol, mentrau cymunedol a Llywodraeth Leol, gan gynnwys Arweinydd Cyngor yn Lloegr a fydd yn rhannu profiadau diweddar o symud ymlaen gyda newidiadau radical i gyflenwi gwasanaethau.

O ystyried y testun, rwy'n falch o wahodd aelodau'r Pwyllgor Cyllid i'r seminar. Bydd yn cael ei chynnal yn Neuadd y Ddinas, Caerdydd, gan ddechrau yn brydlon am 10:30am a gorffen am 3:15pm. Bydd Arweinwyr a Phrif Weithredwyr, Swyddogion Cyllid, Penaethiaid Gwasanaethau perthnasol a Chadeiryddion Craffu Llywodraeth Leol hefyd yn cael cynnig dod i'r seminar.

Dymuniadau gorau,

]

**Leighton Andrews AC / AM**
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Minister for Public Services

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0300 0603300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0300 0604400
Correspondence.Leighton.Andrews@wales.gsi.gov.uk

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.